# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD GWENER, 6 MEDI 2019

## BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: L.Jones a/ac R.G.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

N.Pearce, C.Morris, D. Phillips a/ac N.Headon

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd L C Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   **Penderfyniad:**

   Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 12 Gorff 2019.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

   **Penderfyniad:**

   Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

4. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2019/2020 - CHWARTER 1 (1 EBRILL 2019 - 30 MEHEFIN 2019)**

   **Penderfyniad:**

   Dylid nodi'r adroddiad.

5. **DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY (CROW) 2000 - YSTYRIED Y CANLYNOL: YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY DRAFFT; A RHOI'R GWEITHDREFNAU CYHOEDDI/YMGYNGHORI AR WAITH**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft, fel y'i hamlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, fel sail ar gyfer ymgynghoriad;

2. Rhoi'r trefniadau cyhoeddi ac ymgynghori, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ar waith.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000, a sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli a gwella ein Hawliau Tramwy Cyhoeddus dros y 10 mlynedd nesaf.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

6. **IECHYD YR AMGYLCHEDD A SAFONAU MASNACH: CYNLLUN CYFLAWNI'R GWASANAETH BWYD A PHORTHIANT 2019-2020 AC ADOLYGIAD GORFODI'R GYFRAITH BWYD A PHORTHIANT 2018-2019**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

7. **LLWYBR CYHOEDDUS HONEDIG O GAE'R PARC I'R LLWYBR TROED MABWYSIEDIG SY'N CYSYLLTU DULAIS FACH Â STRYD Y PARC, CYMUNED TONNA**

**Penderfyniad:**

Gwneud Gorchymyn Addasu dan ddarpariaeth Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn ychwanegu hyd y llwybr troed o Gae'r Parc i'r llwybr troed mabwysiedig sy'n cysylltu Dulais Fach â Stryd y Parc yng nghymuned Tonna (A-B-C, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd) i'r Map a'r Datganiad Diffiniol, ac os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, ei gadarnhau fel gorchymyn diwrthwynebiad.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

1. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn erbyn y cais neu i herio bod y preswylwyr wedi gallu cerdded ar hyd y llwybr am y cyfnodau a honnwyd.

2. Mae'r rhesymau dros ddefnyddio'r llwybr hwn yn amrywiol ac fe'u cefnogir gan niferoedd sylweddol sy'n cynrychioli'r cyhoedd yn gyffredinol.

3. Mae'r dystiolaeth map yn dangos bod y llwybr wedi bodoli ers o leiaf 1984, ac mae hyn ynghyd â disgrifiadau'r rheini sy'n cefnogi'r cais yn dangos bod y llwybr wedi bod ar gael ac wedi cael ei ddefnyddio ers o leiaf y dyddiad hwn.

4. Mae'r lluniau a dynnwyd o'r llwybr cyn iddo gael ei lenwi â cherrig a choncrit yn dangos cyfres o risiau a chanllaw sy'n amlwg yn cefnogi'r honiad y bwriedid i'r grisiau hyn gael eu defnyddio, p'un ai;

   (i) At ddefnydd preswylwyr Cysgodfa yn unig neu,
   (ii) At ddefnydd y cyhoedd cyffredinol pan gwblhawyd y tai yng Nghae'r Parc.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

8. **LLWYBR CEFFYL CYHOEDDUS HONEDIG O DAN-Y-BONT (PONTRHYDYFEN) I'R BRIF FFORDD (EFAIL FACH) CYMUNEDAU PELENNA A CHWMAFAN**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y cais (Llwybr ceffyl cyhoeddus honedig o Dan-y-Bont, Pontrhydyfen i'r briffordd, Efail Fach yng nghymunedau Pelenna a Chwmafan), fel y'i fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

1. Ni ellir gwneud cais am lwybr ceffyl cyhoeddus o dan Adran 31 Deddf Priffyrdd 1980 o gofio bod y llwybr wedi bod ar dir y Goron ers 1960. Nid oes unrhyw dystiolaeth defnyddwyr yn ystod y cyfnod perthnasol rhwng 1940 a 1960.

2. Ni ellir gwneud cais am lwybr ceffyl cyhoeddus dan gyfraith gwlad, oherwydd presenoldeb gât gloëdig ym mhen deheuol y llwybr, darpariaeth allweddi ar gyfer y gât honno i unigolion penodol ac oherwydd rhoddwyd mynediad caniataol ers symud y gât hon sydd ar glo.

3. Yn yr un modd â phwynt 1 uchod, ni all unrhyw gais am lwybr cyhoeddus lwyddo o ganlyniad i'r dystiolaeth defnyddwyr a ddarparwyd o dan Adran 31 o Ddeddf Priffyrdd 1980 gan fod y defnydd hwnnw'n digwydd ar dir y Goron.

4. Yn olaf, am y rhesymau a roddwyd ym mhwynt 2 uchod, bydd angen i geisiadau i gadarnhau bodolaeth llwybr cyhoeddus dan gyfraith gwlad hefyd ddangos bod perchennog y tir wedi cymryd mesurau penodol er mwyn cyflwyno'r llwybr yn arbennig i'r cyhoedd. Nid yw bodolaeth gât dan glo a rhoi caniatâd i ddefnyddwyr ar droed yn sefydlu rhagdybiaeth o'r fath.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gellir gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

10. **CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU TIR**

**Penderfyniad:**

Derbyn y cynnig argymelledig a dderbyniwyd i waredu tir ger Heol Tabor, Cwmafan, Castell-nedd Port Talbot (fel y manylir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Caniatáu gwerthu eiddo dros ben ac ennill derbyniad cyfalaf.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ymgynghorwyd â'r aelodau lleol ar yr eitem hon.

11. **EITEM BRYS**

O ganlyniad i'r angen i ymdrin â'r materion yng Nghofnodion Rhif 12 ac 13 isod ar unwaith, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r rhain yn ystod cyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

12. **FFORDD DOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT CAM 2 - YMESTYN Y CYFNOD STATUDOL AR GYFER YR HAWLIAD GAN ASSOCIATED BRITISH PORTS HOLDINGS LTD AM IAWNDAL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo ymestyn y terfyn amser er mwyn trafod y cais gan Associated British Ports Holdings Ltd dan Gam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot, tan 31 Rhagfyr 2019.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y camau gweithredu di-oed y mae eu hangen mewn perthynas â hawliadau dan Gynllun Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

13. **ADNEWYDDU PRYDLES I LETY'R CYNGOR YNG NGHANOLFAN ADNODDAU CYMUNEDOL CIMLA**

Derbyniodd aelodau ddiweddariad gan swyddogion er mwyn diwygio'r geiriad yn y penderfyniad i "yn adolygol".

**Penderfyniad:**

Bydd y cyngor yn gyfrifol am y brydles newydd ar gyfer Canolfan Adnoddau Cymuned Cimla, yn adolygol o 1 Medi 2019, yn unol â'r telerau a amlinellir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd adnewyddu'r brydles yn galluogi staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i barhau i ddefnyddio'r llety a chynnal amgylchedd cydweithio er mwyn ymgysylltu â chydweithwyr Iechyd yn effeithiol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**